**Ward** - Moel Fammau

**Aelod(au) Ward** - Y Cynghorydd Huw Williams

**Rhif y Cais** - Amherthnasol

**Cynnig** - Cadarnhau Gorchymyn Diogelu Coed (GDC) dros dro Rhif 4 (2024)

**Lleoliad** - Tir rhwng y Rheithordy a Brackendene, Llanbedr Dyffryn Clwyd

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

1.1. Hysbysu Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio bod y Cyngor wedi cael gwrthwynebiad i Orchymyn Diogelu Coed arfaethedig Rhif 4 (2024) ar Dir rhwng y Rheithordy a Brackendene, Llanbedr Dyffryn Clwyd a wnaed ar 15 Mai, 2024; ac i argymell cadarnhau'r Gorchymyn Diogelu Coed. Mae'r GDC yn amddiffyn un Llarwydden Ewropeaidd (Larix decidua) (T1).

**2. Adroddiad**

2.1 Mae Swyddog Coed y Cyngor wedi cynnal asesiad o'r goeden ac wedi cyflwyno cais bod y Llarwydden Ewropeaidd (Larix decidua) (TL1) yn cael Gorchymyn Diogelu Coed gan fod y goeden yn cyfarfod y meini prawf perthnasol ac angen ei diogelu. Nodiadau Archwiliad y Swyddog Coed - mae Dull Gwerthuso Coed ar gyfer Gorchmynion Diogelu yn cadarnhau bod gan y goeden bwysigrwydd cynefin ac o dan fygythiad uniongyrchol gan ddatblygiad.

2.2. Mae Swyddog Coed y Cyngor yn ystyried bod gwerth y goeden yn cyfrannu at gymeriad yr ardal sy'n golygu bod angen ei hamddiffyn. Trwy osod GDC ar y goeden mae'n amlygu wrth yr holl bartïon cysylltiedig ei bod wedi ei hamddiffyn a bod mwy o reolaeth dros y goeden yn y dyfodol.

2.3. Yn dilyn cyflwyno'r GDC, cafodd y Cyngor wrthwynebiad gan y Tad Huw, preswylydd lleol ac Arweinydd Ardal y Genhadaeth Dyffryn Clwyd. Mae'r gwrthwynebiad yn nodi'r pryderon canlynol: -

- *Cwestiynu pam bod angen y GDC. Mae'r datblygiad tai yn cynnwys gwelliannau diogelwch ar gyfer y pentref, sef dod â'r llwybr troed y tu mewn i'r wal ac i ffwrdd o'r gefnffordd brysur. Mae'r datblygwr wedi gweithio gyda'r Eglwys i sicrhau bod y llwybr yn cysylltu â'r fynwent sy'n rhan o'r rhwydwaith llwybrau presennol. Byddai'r llwybr hwn yn pasio'n uniongyrchol o dan y llarwydd gorllewinol sy'n cynnwys llawer o bren marw sydd angen ei docio a darn mawr o ddifrod storm blaenorol traean o'r ffordd i fyny'r boncyff.*
- *Awgrymu cyn cael GDC, y cynhelir archwiliad manwl o'r goeden i edrych ar ei sefydlogrwydd presennol gan fod canghennau yn aml yn disgyn ar fy ngwrych ar ôl gwyntoedd cryfion. Yn ogystal â hyn mae nifer o ganghennau isel sy'n cyrraedd y llawr sydd angen eu tocio i ganiatáu i'r llwybr fynd yn ei flaen, llwybr rydym wedi bod yn edrych ymlaen ato ac mae'n rhan o'r cynllun cynaliadwyedd hirdymor ar gyfer yr Eglwys sy'n ased dreftadaeth ddiwylliannol arwyddocaol ar gyfer y pentref. Yn hytrach na gosod GDC ar y goeden rwy'n credu bod angen ei thorri am resymau diogelwch ac o leiaf mae angen ei thocio wrth dynnu coed marw a'r canghennau isel sydd bron â chyrraedd y llawr.*
- *Mae nifer dda o goed brodorol aeddfed o'i hamgylch, yn arbennig yn y fynwent, sy'n cael ei rheoli'n arbennig ar gyfer bioamrywiaeth ar ôl cael Gwobr Eglwys Eco Aur Cyntaf yng Nghymru yn ddiweddar, sy'n creu gwell cynefin ar gyfer bywyd gwyllt na llarwydd gorllewinol.*

2.4. Deallir bod Swyddog Coed y Cyngor wedi cwrdd â'r gwrthwynebwr ar ôl cael y sylwadau uchod. Eglurwyd na fyddai'r GDC yn rhwystro/atal datblygu'r droedffordd newydd, fodd bynnag mae pryderon yn parhau bod y goeden angen gwaith/yn anniogel yn y lleoliad hwn, mor agos at y droetffordd arfaethedig.

Nid yw'r Swyddog Coed wedi gallu cysylltu â'r datblygwr ynglŷn â'r goeden.

Mae swyddogion yn parhau i gredu bod angen GDC gan ei fod yn rhoi gwell amddiffyniad a/neu bwerau ailosod wrth i'r datblygiad fynd yn ei flaen.

**3. Casgliad**

3.1. Er gwaethaf y gwrthwynebiad yr argymhelliad yw cadarnhau'r GDC yn unol ag argymhelliad Swyddog Coed y Cyngor.

**4. Argymhelliad**

4.1. Mae GDC Rhif 4 (2024) rhwng y Rheithordy a Brackendene, Llanbedr Dyffryn Clwyd yn cael ei gadarnhau heb ei addasu i roi amddiffyniad parhaus i'r Llarwydden Ewropeaidd (Larix decidua) (T1).

**Dogfennau cefndir**

Gorchymyn Diogelu Coed Rhif 4 (2024) Tir rhwng y Rheithordy a Brackendene, Llanbedr Dyffryn Clwyd

Nodiadau archwiliad y Swyddog Coed (TEMPO) dyddiedig 3 Mai, 2024

Gwrthwynebiad gan y Tad Huw, preswylydd lleol ac Arweinydd Ardal y Genhadaeth Dyffryn Clwyd.